# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-06-08)

**Dyddiad: 13 Mawrth 2008**
**Amser: 9:00 - 9:20**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Jeff Cuthbert, Caerffili
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Alun Ffred Jones, Arfon
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgor

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Brynle Williams a Karen Sinclair. Mynychodd Jeff Cuthbert fel dirprwy ar ran Karen Sinclair.

### Eitem 2: Ystyried gohebiaeth ar y strwythur prisio ynni yng Nghymru
### Papur: SC(3)-06-08 (p1)

2.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau i wneud sylwadau am yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan y Gymdeithas Manwerthu Ynni, y Gymdeithas Rhwydweithiau Ynni, Centrica plc a Golwg ar Ynni Cymru, mewn ymateb i wahoddiad y Pwyllgor iddynt fynychu sesiwn graffu ar y strwythur prisio ynni yng Nghymru.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i wahodd cwmnïau ynni sy'n gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd i fynychu cyfarfod yn y dyfodol i drafod eu hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi ynni yng Nghymru. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at Ofgem i ofyn iddo ystyried y dimensiwn Cymreig yn llawn o fewn cyd-destun ei arolwg cyfredol o'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer rhwydweithiau ynni.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor hefyd i gymryd cyngor cyfreithiol ar annog tystion i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor ac i ystyried cynnal sesiwn ar y cyd gyda'r Pwyllgor Dethol Materion Cymreig.